YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 6] MEHEFIN, 1921. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

"RHAGOLYGON Y PWLPUD UNDODAIDD, &c."

HELA CWAL.

Y GYMANFA GERDDOROL.

ARHOLIAD 1920—1921.

TELYNORION ABERDAR.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Y MILWR DI-ENW.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis ; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a goheb iaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS' Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.

YR ✠ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1921. [CYF. XXI. RHIF 6.

"RHAGOLYGON Y PWLPUD UNDODAIDD CYMREIG A'R MODD I'W GYFLENWI YN Y DYFODOL."

Annerchiad roddwyd yn y Cyfarfodydd Chwarterol yng Ngalltyblaca, Ebrill 3, 1921, ac a gyhoeddir ar gais.

NID oes angen i mi ddweyd fod y pwnc yn un amserol, a charwn allu argyhoeddi pawb o'n pobl o'i bwysigrwydd. Y mae dyfodol ein hachos crefyddol, a dyfodol ein eglwysi Cymreig yn ymddibynu ar fod yna ambell i ddyn ieuanc eto, fel yn y dyddiau gynt, cwbl ymroddedig i gysegru eu hunain i waith dewisol y weinidogaeth

Dymunwn, pe y gallwn, osod y mater yn y fath fodd fel ag i apelio yn y modd mwyaf difrifol at bobl ein eglwysi i ddihuno eu meddyliau at yr angen mawr hwn.

Hyd yn hyn nid ydyw pwlpud ein Cyfundeb bychan wedi dioddef yn y gorffennol oddiwrth nifer y rhai gynnygient eu hunain i'r weinidogaeth, ac os y maddeuwch i mi am ei ddweyd, ni feddyliaf ei fod wedi dioddef chwaith oddiwrth *quality* yr ymgeiswyr.

Nid yn unig yr ydym wedi codi digon at ein gwasanaeth ein hunain, ond y mae, o leiaf, 21 o weinidogion cymharol ieuainc heddyw yn llafurio yn Lloegr a'r Iwerddon, fagwyd ac a feithrinwyd, gan mwyaf, yn y cylch Undodaidd yn Sir Aberteifi. Ond y mae'r blynyddoedd diweddaf hyn wedi newid pobpeth, ac y mae'r weinidogaeth a'r pwlpud wedi dod o dan y dylanwad anwrthwynebol hwn lifodd dros y tir, mewn canlyniad i gyfnod y Rhyfel mawr.

Cysur gwan fyddai gennyf pe dywedwn am beidio gwangaloni, am fod yr un anhawster yn wynebu pob enwad heddyw yng Nghymru a Lloegr, ond ni fyddai allan o le i gofio fod yr un broblem anhawdd hon gan enwadau eraill yn ogystal a ninnau. Dywedai offeiriad wrthyf y dydd o'r blaen am Ficer mewn plwyf arbennig, wedi methu am yn agos i flwyddyn o amser i gael curad i'w gynnorthwyo, er cynnyg o hono gyflog o £250 iddo.

Beth ydyw hanes y Colegau Diwynyddol heddyw? Nid oes ynddynt hanner rhif y myfyrwyr a gaed ynddynt cyn y rhyfel. Felly, y mae o ryw gysur i wybod mai nid ni yn unig sydd yn dioddef. Ond hyn ydwyf am ddweyd, a'i ddweyd gyda phob difrifwch, wrth bob un sydd yn dymuno llwyddiant yr achos a'r egwyddorion safwn drostynt os ydym am gadw'n hunain uwchlaw'r dŵn, y mae yn rhaid i ni ddysgu nofio, ac i ddysgu i'r genhedlaeth a ddêl yr un gelfyddyd. A'r eglwys wna benderfynu yn llwyddiannus y broblem hon, dyna'r eglwys wna nofio ar wyneb y dŵn. Bydd awelon balmaidd y nefoedd o'i thu yn ei chynnorthwyo'n mlaen, a'r eglwys na ystyria'r pwnc hwn, ac a esgeulusa, mewn difaterwch a difrawder ofalu am waed ei bywyd, bydd raid i honno suddo i'r gwaelod a boddi, ac efalle na fydd yr un golled i'r byd ei bod wedi mynd, y mae wedi esgeuluso dysgu y ffordd iawn i fyw yn iawn.

Felly, gwelwch os oes gennych gariad at yr achos goreu; os oes ynoch awydd am ei weld yn llwyddo, yn ennill tir, ac yn magu nerth, y mae o'r pwys mwyaf ein bod yn wynebu'r pwnc gyda phob difrifoldeb.

Rhagolygon y Weinidogaeth.

Y mae i'r weinidogaeth ei manteision a'i hanfanteision fel ag y mae yn perthyn i bob galwedigaeth arall. Beth ydyw rhai o'r anfanteision berthyn iddi? Nid yw gwaith y weinidogaeth yn un ag sydd o blaid cadw iechyd da yng nghyfansoddiad y pregethwr, yn enwedig i'r rhai eisteddant ormod yn y fyfyrgell, ac a ofalant ond ychydig am ymarferiad corfforol. Y mae yn wybyddus am bregethwyr fod mwy o anhwylderau iechydol yn eu poeni bron nag un dosbarth arall o bobl.

Y mae y gweinidog yn gorfod byw ar wirfoddolrwydd ac anrhydedd pobl. Mae'r egwyddor wirfoddol wedi bod yn destun rhagorol i ganu am dano, ond egwyddor beryglus i briodi a chadw tŷ arni ydyw. Ac y mae pobl grefyddol mor barod i esgeuluso eu dyledswydd yn y cyfeiriad hwn, ac y mae eu hanrhydedd weithiau yn brin, nes mae yn achosi poen a gofid nid bychan i'r gweinidog. A gaf fi nodi yn y fan hon y diffyg trefn sydd yn nodweddu rhan fwyaf o'n eglwysi yn y mater hwn. Pe buasid mor llac a difraw i gario ymlaen rhyw fusnes fydol ag ydys yn fynych i gario busnes yr eglwys aethai yr hwch drwy'r siop yn fuan.

Caiff pob aelod dalu ei gyfran neu beidio, os peidio wna, nid wyf yn meddwl y buasai i neb o'r blaenoriaid feddwl am awgrymu iddo ei ddyledswydd. Y mae ein holl eglwysi wedi gwella yn ddirfawr yn eu cyfraniadau yn ystod y blynyddau diweddaf hyn, ond credaf, gydag ond ychydig o ystyriaeth a gofal, a dwyn i fewn ychydig bach o drefniant y buasai iddynt ragori llawer ar yr hyn y maent wedi wneud.

Manteision y Weinidogaeth.

Ar ol 26 mlynedd o brofiad yn y weinidogaeth, yr wyf am gadarnhau fod i'r weinidogaeth ei manteision. Ac os oes yn rhywle ynghylch ein eglwysi unrhyw fachgen ieuanc a'i duedd i gyfeiriad y weinidogaeth, ac wedi ei ddonio ar gyfer ei ddyledswyddau, cymhellwn ef yn ddiofn i fynd yn ei flaen.

Os oes rhywun am fywyd tawel, llonydd a dibryder, dywedaf wrtho yntau cadwed ymhell o derfynau maes y weinidogaeth. Nid oes yr un alwedigaeth yn uwch ar wyneb daear Duw, a'i gwneud yn iawn. Y mae gan y gweinidog gyfle i siarad a chydwybodau dynion o Sul i Sul. Y mae yn delio a'r pethau uchaf berthyn i natur dyn. Yr wyf yn gwbl sicr nad oes cyfleustra gwell gan neb ar wyneb y ddaear i ddylanwadu ar ac i ffurfio meddwl eu hoes nag sydd gan bregethwr cymeradwy. Os oes rhywun am fywyd llawn o'r mwyaf goreu, yng nghanol pryderon, yn yr ymwybyddiaeth ei fod yn helpu Duw i wneud y byd yn well, ac agor y dorau i nefoedd newydd a daear newydd i ddod i mewn, yn y rhai mae cyfiawnder yn cartrefu, y weinidogaeth am dani.

Yr ydym wedi cael llawer blwyddyn o brofiad yn y weinidogaeth bellach, a gallwn ddweyd yn onest—"*With all thy faults I love thee still*," ac ni fynnem ei newid am unrhyw alwedigaeth arall, ac eto nis gallwn gau ein llygaid ar y ffaith fod gwaith y gweinidog yn fwy ac yn anhawddach nag y bu erioed o'r blaen.

Fel y bai dd a'r cerddor, fe enir y gweinidog a'r pregethwr hefyd. Mae'r pwlpud heddyw yn gofyn am y dynion goreu, am y meddyliau goreu, ac am yr athrylith uwchaf. Dyma sydd wedi codi Cymru. Dyma sydd wedi bod fel mur am dani, ac wedi ei gwneud ar lawer ystyr yn genedl arbennig ar ei phen ei hun. Ein gofal pennaf ni ddylai fod, gan hynny, i sicrhau i wasanaeth ein pwlpud, yn enwedig ar y fath adeg a hon, ddoniau a diwylliant uchaf y genedl.

Y Broblem sydd yn ein haros yw,

pa fodd y mae cael y doniau a'r athrylith, ac uwchlaw pob dim, y cymeriadau goreu i ymgymeryd a gwaith y weinidogaeth.

Yn gyntaf, y mae yn rhaid i'r gweinidog i gael cyflog byw. Coeliwch fi, mai gwaith anhawdd fydd perswadio dyn ieuanc addawol, yn y dyfodol, i fynd i'r weinidogaeth, pan y bydd ei gyflog yn brin a'i bwlpud yn ansicr. Y mae yna agoriadau amlach y dyddiau hyn i wahanol alwedigaethau, yn y rhai y mae yna well cydnabyddiaeth fydol nag a geir yn y weinidogaeth.

Beth ydym ni yn wneud yn y cyfeiriad hwn? A gadewch i mi sicrhau mai nid er mwyn lles fy hunan na'm cyd-weinidogion yn bersonol yr wyf am wneud rhai awgrymiadau, oherwydd gall rhagor nag un o honnom ddweyd, "Mwy sydd eisioes wedi ei deithio nag sy'n ol o'r anial dir." Dyfodol yr eglwysi a chariad at yr achos ydyw'r unig beth sy'n fy nghymell i ddweyd yr hyn ddywedaf. Pan

ddaw yr adeg hono, bydd rhai o honom yn medru troi ein wynebau tua'r pared yn siriolach, ac yn well, os y gwelwn fod eglwys y Duw byw yn llwyddo ac yn para i lewyrchu yn y tir.

Beth ydyw ein safle bresenol ni fel nifer o eglwysi, a beth a wnawn i helpu'r gwaith da yn ei flaen? Y mae i ni 13 o eglwysi yn y cylch hwn, a chwech o weinidogion yn gofalu am danynt—dwy eglwys yng ngofal pob gweinidog, oddigerth y Parch. Lewis Williams, yr hwn sydd yn gofalu am dair. Nid wyf yn meddwl ei bod yn bosibl rhagori ar y trefniant hwn.

Ar ddiwedd 1920 yr oedd yna 1501 o aelodau yn yr eglwysi gyda'u gilydd, neu ar gyfartaledd, 250 yng ngofal pob gweinidog. Yn ystod y flwyddyn cyfranodd yr eglwysi yng nghyd at gyflogau y gweinidogion £818 9s., neu ryw £136 ar gyfartaledd i bob gweinidog.

Cyfranodd yr aelodau ar gyfartaledd 11s. y pen am y flwyddyn, neu 10c. y mis, neu 2½c. yr wythnos. Yn awr, yr hyn fyddwn am ofyn gyda phob difrifoldeb yw hyn, A ydym yn foddlon ar bethau fel y maent? A ydyw yn rywbeth i ni ymffrostio yn ei gylch mai 2½c. yr wythnos y pen, ar gyfartaledd, mae y 1500 aelodau hyn yn gyfranu at achos crefydd? Gobeithio nad yw yn beth i ni foddloni arno, a charwn pe medrwn greu rhyw anfoddlonrwydd ymhob calon, a phenderfyniad cadarn i wneud eto yn well. Ni fyddaf, gobeithio, yn bradychu unrhyw gyfrinach ymddiriedwyd i mi drwy ddweyd mai yr eglwys wannaf feddwn sy'n cyfranu oreu yn y cyfeiriad hwn.

Y mae gyda ni fel gweinidogion achos diolch am fod gyda ni Drysorfa Gynnaliaethol (*Sustentation Fund*) o'r hyn y derbyniwn help sylweddol bob blwyddyn. Ond credaf fod yn ein plith ni ragor o adnoddau nag sydd wedi dod i'r golwg eto, ac os ydym am wneud y weinidogaeth yn atdyniadol i'n pobl ieuanc, bydded i'r adnoddau hyn fod yn fwy amlwg.

Gofalwch roddi Cyflog Byw i'r Gweinidog.

Y mae yn rhaid hefyd i'r gweinidog gael cydymdeimlad llwyraf a chydweithrediad parod yr holl eglwys. Teg ydyw dweyd mai nid y pwnc o arian yn unig, nac yn gyffredin, yn bennaf sydd o dan yr anesmwythder a'r anfoddlonrwydd deimlir gan aml i weinidog.

Y mae yna un anhawster yn wynebu y gweinidog Undodaidd nad yw yn wynebu un gweinidog mewn un enwad arall. Nid oes gan weinidog Undodaidd le i gilio a chwilio am faes arall os nad yw yn medru cyfaddasu ei hunan i'r lle y digwydd syrthio iddo ar ddechreu ei yrfa. Y mae cylch eglwysi enwadau eraill mor helaeth, a gallant ddewis braidd fel y mynnont. Nid oes gennym ni ond myned at y Saeson, fel y mae ambell un wedi wneud yn barod; ond y mae rhai o honom yn rhy hen i newid ein hiaith mwy. Yr wyf yn dweyd hyn, fel rheswm dros obeithio y sylweddolir ein anhawster, y gwerthfawrogir ein sefyllfa, ac yr estynir y cydymdeimlad llwyraf a'r cydweithrediad goreu i'r gweinidog yn ei waith. Y fath ddinystr ysbryd-ol fedr dau neu dri wneud mewn eglwys—rhai nad oes dim yn uwch

ganddynt na rhwystro a suro bywyd yr eglwys. Felly, os am helpu'r gweinidog

Rhoddwch o'ch Cydymdeimlad.

Os am wneud bywyd y gweinidog yn bleserus, nac esgeuluswch eich cydgynulliad eich hunain. Dyma bechod sydd barod i'n hamgylchu. Rwy'n cyfeirio at rai claear a difater sydd i'w cael ymhob eglwys. Y mae yna barodrwydd ryfedd ar eu tu i esgeuluso eu cynnulliadau. Y mae pobpeth yn fwy o at-dyniad na mynd i'r cwrdd. Mor ysgafn y troir hwn o'r neilldu, nid er mwyn ei well ond ei waelach o lawer. Os ydym am gael diwygiad a chwyldroad na welwyd ei fath gennym o'r blaen, nid oes ffordd sicrach i'w gael, na chael gan y claear i adael ei glaearineb, a gweled yr holl bobl yn codi allan i'r cynulliadau. Darfyddai son am broblem y weinidogaeth wedi hyn. Darfyddai pryder am ddyfodol yr eglwysi. Hon ydyw'r ffordd i wneud y fechan yn fil, a'r wael yn genedl gref.

Y mae yn rhaid meithrin yr ysbryd iawn—yr ysbryd parchus a defosiynol ar aelwydydd ein cartrefi. Gosod ein plant yn y galwedigaethau sydd yn talu oreu ydyw hi yn awr, heb ofyn a ydyw'r alwedigaeth honno yn help neu yn rhwystr i fagu a meithrin dynoliaeth bur a dyrchafedig ynddynt. Rwyf am ddweyd eto y dylem ofalu fod ein plant yn enill cymeriad ar draul colli *capital*, os bydd raid.

Yr oedd y diweddar Barch. Hugh Price Hughes, gweinidog enwog gyda'r Wesleyaid, yn fab i Dr. Hughes, Caerfyrddin. Yr oedd y bachgen wedi ei fwriadu i fod yn gyfreithiwr, ac aethai i Abertawe i barotoi ar gyfer yr alwedigaeth barchus honno. Ond ryw nos Sul wrth wrando ar bregethwr cynnorthwyol yn pregethu, daeth iddo yr argyhoeddiad megis o'r nefoedd ei hunan, mai pregethwr fynnai yntau fod befyd. Ysgrifenna adref at ei dad ar unwaith. Y mae yn adrodd ei brofiad, ac yn dweyd am ei benderfyniad; ac y mae'r tad yn ei ateb mewn geiriau bythgofiadwy:—"*I would prefer to see you a Wesleyan Minister, than a Lord Chancellor of England.*"

Meddyliwch pe bae ei dad wedi ei gynghori, a dweyd: "Ystyria beth wyt ti'n wneyd; galwedigaeth fach ddigon digwnt yw galwedigaeth pregethwr; nid oes llawer o arian ynddi; byddi yn gymharol dlawd hyd dy fedd, am y bydd raid it' fyw ar drugaredd ac ewyllys da pobl, a phob un a'i big ynot, ac yn dy farnu. Na, ystyria, machgen i, beth wyt yn wneud." Pe bae Dr. Hughes wedi ateb fel hyn ni fuasai'r pwlpud wedi cael o ddoniau ac athrylith ddisglaer Hugh Price Hughes. Meithrinwch ysbryd parchus a defosiynol yn eich plant at y weinidogaeth, os ydych am weled rhywrai o'r newydd yn troi eu hwynebau ati.

A ydym ni yn meddwl rhywbeth am ragolygon y Pwlpud Undodaidd? A fydd yna rywrai o honom yn meddwl dim am y pwnc ar ol gorffen y cyfarfodydd hyn? Dymunwn ofyn yn garedig ar i ni feddwl a myfyrio ar rai o'r awgrymiadau wnawd gennym. Rwy'n

credu fod y Tadau yn teimlo y cyfrifoldeb hwn yn ddwys. Gawn ni gymeryd y mater hwn at ein hystyriaeth ddifrifolaf. Mae Tadau a Mamau annwyl y gorffenol yn galw arnom.

Pan oedd un o'r hen bontydd enwog yn Scotland, rai blynyddoedd yn ol, mewn perigl o gael ei thynnu i lawr, yr oedd pawb, i bob ymddangosiad yn ddigon difater, ond fe gaed yno gyfarfod i brotestio yn erbyn y peth. Yr oedd yno rai yn teimlo, a gwnaeth un o areithwyr yr Alban y wlad yn ferw drwyddi mewn eiliad, drwy dynnu darlun byw o Robert Burns mor fyw fel y tybiai cannoedd eu bod yn ei weled wedi codi o'i fedd i ddadleu dros beidio cyffwrdd y "Brigs of Ayr."

Oni allwn ninnau heddyw ddychmygu am rai o'r Tadau yn dod atom i ddadleu hawliau yr Eglwys a hawliau y Weinidogaeth. A ddeffroem ni pe codai un oddiwrth y meirw?

Y mae Duw wedi ymddiried i ni y gwaith o buro bywydau ac adeiladu cymeriadau, i gysuro ac i arwain, ac i gyfaddasu ein hunain ar gyfer gofynion newyddion yr ardaloedd; ac yr ydym i gysegru y cyfan i amcanion Teyrnas Dduw. A'r ffordd bennaf i wneyd hynny ydyw noddi yr Eglwys ac ymgeleddu'r Weinidogaeth, a gweddio am gael arweinwyr goleuedig a dysgawdwyr crefyddol, gweinidogion dysgedig ac ymroddedig, llawn o'r Ysbryd Glan.

"Bellach, frodyr, byddwch wych. Byddwch berffaith, byddwch heddychol, a Duw y cariad a'r heddwch a fyddo gyda chwi."

HELA CWÂL.

Ddoe'r bore yr oeddwn allan am dro diamcan ddigon. Yr oedd y nef yn dawel, ac yr oedd eisiau llond pen o awyr iach y meysydd a'r coedydd arnaf. Ni welais i natur erioed mor brydferth. Yr oedd fel geneth ieuanc ddeunaw oed ac addewid o brydferthwch a ffresni yma cyn fod dwylo halog y byd yn symud ymaith y *bloom*, ac nid oes fore hafal i fore o Fai,—

"Mynnwn pes Duw a'i mynnai
Pe'r deuddeng mis fal mis Mai."

Nid oedd gwmwl cymaint a chledr llaw gŵr ar yr wybren lâs. Mor dawel ydoedd heb siffrwd y dail, ac yr oedd hyd yn oed yr haul wedi anghofio'r *Summer Time*. Yr oedd tawelwch mud ymhobman a thangnefedd yn fy mynwes i. Yr oedd yr awel yn huno rhwng y dail; yr oedd cor y wig yng nghwsg. Hwyrach fod ambell aderyn bach yn cyweirio tannau'i delyn wrth ei bleser, dyna'i gyd. Mor hyfryd ydyw troi o ddwndwr a mynd y byd a mwstwr y moduriau i gymuno a natur. Yr oedd rhyw dusdd ynof i ddywedyd gyda Byron,—"Ni charaf ddyn yn llai ond natur yn fwy."

A minnau'n myfyrio felly gan edrych i'r eangder heb weled dim,

a heb ddim ar fy meddwl o bwys, clywais rywbeth a'm deffroes. Ai llais? Ai ysgrech? Ai sŵn? Nis gwn. Yr oedd tan fy nhraed, ond erbyn chwilio, ofer oedd. O oedi ennyd, torrodd eilwaith ar fy nghlyw, rhyw ganllath yn uwch i fyny. Brysiais yno ar fy union heb ameu na gofyn, ond doi ar hyn o gyfeiriad hollol wahanol. Wedi troi a throsi felly, dechreuais holi fy hunan. Ai ynghylch y Tylwyth Teg yr oeddwn? Tybed a'u lleisiau hwy a'm harweinai o un man i'r llall yn y cylch cyfrin? Meddyliais ennyd: cofiais hen *wheddel* a glywais ar yr aelwyd gartref gynt,—

HELA CWAL.

Dyna a wnawn, hela cwâl! Y mae pobun ond odid yn gyfarwydd a'r sŵn a'm hudodd i o'r llwybr, ac a'r aderyn hefyd o ran hynny. Nid wyf yn sicr na chamenwn ef o'i alw felly. Hwyrach mai "Rhegen Ryg" yw'r enw goreu, ond nid wyf naturiaethwr. Nid yw'r enw yn bwysig. Nid wyf i yn sicr ond o'r frongoch, y dryw, yr aderyn du, ac aderyn llwyd y tô, a hwyrach dri neu bedwar arall, ond caraf hwynt bob yr un. Er hyn, ni chredaf fod odid neb na chlywodd rywdro neu gilydd y cwâl, a gwyr pob un sydd wedi ceisio'i hela fod athroniaeth ddofn yn yr hen wheddel—Hela Cwâl! A rhwng cromfachau megis, medrai'r teidiau gynt awgrymu gwirionedd a darlun dihafal o fyd natur, a dyna geir yma.

Cofiaf yn dda y tro cyntaf y'i clywais. Yr oedd stori wedi myned ar led trwy'r ardal am amaethwr cyfrifol,—waeth pwy ydoedd, waeth beth yr ystori. Lledodd y stori fel tân gwyllt, ac o'r diwedd daeth i glustiau'r amaethwr ei hun, a'r dyn sydd yn y stori yw'r olaf i'w chlywed fynychaf. Ond y gwaethaf am dani yr oedd gwir yn y stori. Heb goll amser o'i chlywed, gwelid yr amaethwr yn mynd at y gwr a'i hadroddodd ddiweddaf; yntau, yn ei dro, yn ei anfon at arall, ac felly yn y blaen drwy gydol y dydd. Yr oedd pawb wedi clywed y stori, ond neb yn foddlon ei harddel. O'r diwedd daeth fin hwyr at hen wraig hirben, a dywedodd ei gwyn wrthi. Ni amheuai wirionedd y stori; eisiau dal y gwr a'i lledaenodd oedd arno. Ni atebodd yr hen wraig ond dau air, eto dywedodd y cyfan a oedd eisiau—Hela Cwâl!—dyna'i gyd.

Gyda llaw, y mae yna bobol, pobl y cwâl y'u galwaf, y *nhw* ymhob ardal, a phan ddaw stori adref i glwydo atynt hwy, nid oes ond ymdawelu gan ddywedyd,—"Rhaid ei gymryd ef o b'le y mae'n dod."

Ond y mae yna gwâl ymhob ardal, ymhob cylch o gymdeithas, o'r iselaf hyd yr uchaf. Y maent heddyw yn fawr eu twrw yma, a phan drowch atynt, y maent fan draw. Y maent fel y cwâl. Ni welwch mohonynt hwyrach ond clywwch eu sŵn. Eu hunig amcan yw dyrysu dyn a'i hudo oddiar y llwybr.

Ar y llaw arall, y mae yna bobl yn foddlon dilyn y dynion hyn,—yn foddlon *hela cwâl*. Y mae gan y cwâl ei amcan. Nid er dim y mae ef yn galw'i *grec-grec*. Y mae hwyr neu hwyrach yn talu'r ffordd iddo, ond mor ffol, mor ddall yw'r un a ddilyn lais cwâl na wel chwaethach ei adnabod. Ni fedr dim fod yn fwy anfuddiol na "hela cwâl" mewn unrhyw ystyr.

* * * *

Pwy ddydd cyfarfûm a hên gydnabod imi. Nid oeddwn wedi'i weled er dyddiau ysgol. Yr oedd ei ddillad yn dyllog a'i wedd yn llwyd. Arferid ei ystyried yn fachgen *bright*, ond mor druenus yr olwg arno heddyw. Gwrandewais ar ei gyffes, ac ni chafodd neb gyffeswr mewn mwy o gydymdeimlad ag ef. Yr oedd atco'r dyddiau gynt yn meddalhau'r galon. Dywedodd am ei droion gwael. Dywedodd amled yr ystaeniodd ei gymeriad a llaid y byd. Cerddodd drwy feddau blys a thrueni. Yr oedd *syched* arno ac ni fedrodd y galwni a yfodd mo'i

dorri. Tybiodd y cai nefoedd a phob dedwyddyd drwy borthi'i flys. Troes ymaith a'm chwecheiniog innau'n ei law i gael llety noson, meddai ef,—i dorri'i flys, meddwn innau. Ba esboniad a fedrid roddi ar y methiant hwn. Dim ond hyn. Treuliodd ei oes i "Hela Cwâl," a dyna glefyd yr oes hon—"Hela Cwâl!"

Trowch ar y llaw a fynnoch. Y mae "Elw" wedi mynd yn dduw hollalluog yn ein golwg. Ni cheisiaf i esbonio llawer peth. Y mae'r *strike* fel llaw farw wedi gafael ynom. Wedi i filiynau farw er i'r genedl hon gael rhyddid byw, y mae hithau'n troi oddiar y llwybr a gochwyd gan waed ac yn anghofio'r aberth. Y mae'n troi i "Hela Cwâl."

Nid wyf yn sicr ychwaith na ddeilliai lles i grefydd pe ai pob offeiriad a gweinidog ar *strike*. Y mae bywyd o swydd a safle yn fwy o werth na chymeriad. Nid yw pob Capel ac Eglwys ond *Insurance Office* ar gyfer *risk* y bywyd nesaf, ac o dalu'r *premium* nid oes galw am droi i mewn yno. Y mae pob dosbarth fel pe tae wedi gadael y llwybr union a throi i "hela cwâl." Myn y werin ei hawliau'n raddol, ond gormod y pris os anghofia'i Duw. Y mae'r eglwys yn ochelgar, y mae ofn digio rhywun arni ond odid. Nid llanw eglwys ag unrhyw fath o bobl yw'r amcan, a hynny ar draul distewi'i llais. Y mae'r bugail yntau'n cadw un llygad ar Dduw a'r llall ar ei gyflog, ar ei fywoliaeth, ar ei le. Ni farnaf. Ni wn, ond gwn hyn, fod yna berygl i ddyn anghofio'i gymeriad, i'r eglwys anghofio'i chenhadaeth, i'r werin anghofio'i Duw, a throi oddiar y llwybr union a mynd fel finnau ar fore o Fai i "Hela Cwâl."

T. O. W.

Y GYMANFA GERDDOROL.

Nid yn aml y bu'r fath godi'n fore cyffredinol ag a fu'n y "darn Undodaidd" fore ddydd y 26ain o Fai —bore Cymanfa Gerddorol yr Undodiaid yn y Tabernacl (addoldy'r Methodistiaid), Aberayron. Nid y rhieni alwai ar y plant, fel arfer, eithr y plant alwai ar y rhieni. Yr oedd cwsg wedi ymadael o'u hamrantau gyda chaniad cyntaf y ffonfraith a'r aderyn du, os nad yn gynt na hynny. Ni chafodd yr arferol hoff o'u gwely un drafferth i ymysgwyd o'u trwmgwsg, a chododd y rhai arferent godi'n fore gryn dipyn yn foreuach nag arfer. Oblegid, cyn y gallent fod yn Aberayron erbyn dechreu oedfa'r bore, rhaid oedd cwblhau'r gorchwylion arferol, ac ymwisgo yn eu dillad goreu—a newydd.

* * *

Dechreuodd y rhai cyntaf gyrhaedd Aberayron yn fuan ar ol wyth, os nad ychydig yn gynharach. Braidd na thueddid y gweinyddesau yn y bwydleoedd i rwgnach oblegid hyn. O'r adeg uchod allan, gwelid modur ar ol modur, o bob llun a maint, o bob cyfeiriad, hyd yn oed o leoedd pellennig fel Aberdâr, Pontardawe (yr oedd oddeutu trigain o'r lle hwn—Gellionnen), a Chaerfyrddin, ddod i'r dref, pob un yn ychwanegu at y dorf; ac erbyn amser dechreu, amlwg oedd ein bod

i gael Cymanfa lwyddiannus ; o leiaf, belled ag oedd a fynno nifer pobl a'i llwyddiant.

* * *

Dechreuwyd oedfa'r bore'n dra phrydlon—mor brydlon ag y gellid yn rhesymol ddisgwyl. Ar adeg dechreu, yr oedd yr oriel tua hanner llawn, er fod y llawr yn gymharol wâg ; eithr erbyn terfyn y rhan ddefosiynol, dan arweiniad y Parch. Conwil Evans, yr oedd yr olygfa ar yr oriel yn un hardd neilltuol—y plant yn eu diwyg o bob lliw, gyda'u hwynebau siriol a'u llygaid bywiog a wnelai'n amlwg eu bod wedi eu meddiannu gan yr ysbryd a weddai i'r achlysur. I'm tyb i, dyma'r cyfarfod goreu, a adawodd yr argraff ddymunolaf arnaf. Dichon yr anghytuna ereill. Poed felly. Weithiau. fe'm meddiennir gan ryw fesur o bryder parthed dyfodol ein heglwysi yng Ngheredigion. Ym mhresenoldeb y dorf plant fore dydd y Gymanfa, fe ddiflannodd y pryder—i ryw fesur, o leiaf. Plant yw gobaith ein heglwysi. Eithr y cwestiwn a'm blinir yw—ydym ni, a ddygwn bwys a gwres y dydd yn awr, mor fyw i'n cyfrifoldeb yn y cysylltiad hwn ag y dylem fod? Dyna lle mae'r perygl—inni fethu yn ein gofal o'r dô ieuanc. Llywyddwyd ar gyfarfod y bore gan y Parch. E. E. Jenkins, Walmsley, a chawd ganddo anerchiad rhagorol iawn.

* * *

Dechreuwyd oedfa'r prydnawn gan y Parch. J. Davies, gynt o Alltyplaca, yn ei ddull effeithiol arferol. Da iawn gan ei liaws cyfeillion ei weled yn dal mor gryf a hoenus. Hir y parhao felly yw dymuniad pob edmygwr o hono. Siom fawr i'r gynnulleidfa fu methiant Mr. D. R. Llewelyn, Aberdar, i fod yn bresennol. Eithr ni ryfeddwn iddo fethu dan yr amgylchiadau. Buwyd yn ffodus iawn, fodd bynnag, i gael un mor hyfedr fel siaradwr cyhoeddus a Mr. Tyssul Davies, Aberdar, i lanw ei le. Cawd ganddo anerchiad llawn hyd yr ymyl o'r gwres Cymreig.

* * *

Dechreuwyd oedfa'r hwyr am hanner awr wedi pump, ac awd trwy y rhan ddefosiynol gan y Parch. D. L. Rees, B.A., gweinidog y Tabernacl. Llywydd y cyfarfod hwn oedd yr Henadur J. M Howell. Nid oes angen dweyd pwy yw Mr. Howell—hyd yn oed wrth Undodiaid Ceredigion. Y mae ei enw yn enw teuluaidd drwy'r holl sir—yn wir, drwy Gymru benbaladr — fel gwleidyddwr, fel aelod o bob math ar gyngor cyhoeddus, fel pregethwr, fel llenor, ac fel bardd ; anhawdd enwi un cylch cyhoeddus nad yw Mr. Howell tu fewn iddo, yn rhyw gongl neu arall, yn cymeryd rhan flaenllaw yu ei weithrediadau.

* * *

Yr arweinydd oedd Mr. Hopkin Evans, Mus. Bac., Lerpwl. Hon oedd y tro cyntaf iddo fod yn arweinydd ein cymanfa. Nid dieithr yw ei enw, er hynny ; i bob cerddor, y mae'n adnabyddus fel un o gerddorion blaenaf y genedl. I'r mwyafrif yn y Tabernacl ddydd y gymanfa dieithr-ddyn ydoedd ; a hyd y cododd i ddechreu'r gwasanaeth cyntaf, y gofyniad cyffredin oedd—"ple mae'r arweinydd ? Dianghenrhaid yw dweyd dim mewn ffordd o ganmol o hono fel cerddor ac arweinydd cymanfa, ymhellach na'i fod wedi rhoi boddlonrwydd cyffredinol. Ofnid nid ychydig, oblegid ei absenoldeb o'r *Rehearsals* y Sul blaenorol, y methai'r cerddorion ac yntau ddod i'r ddealltwriaeth o'u gilydd sydd mor anhebgorol i lwyddiant cymanfa. Eithr trodd yr ofn allan yn ddi-sail. Enillodd yr arweinydd gydymdeimlad y cerddorion ar y dechreu, a rhoisant ufudd-dod perffaith i'w holl gyfarwyddiadau hyd y terfyn. Y canlyniad-un o'r cymanfaoedd goreu.

Sylwyd eisioes mai mewn capel Methodistiaid y cynhaliwyd y gymanfa. Teilwng o sylw ydyw—mai ar wahoddiad unfrydol cynulleidfa'r Tabernacl yr awd yno. Clod iddi yw'r arddangosiad hwn o gariad brawdol. Nid golygu eu bod yn gwanhau yn eu hymlyniad wrth Fethodistiaeth wna hyn, eithr golygu eu bod yn meddu digon o'r ysbryd Crisrionogol a bair iddynt siglo llaw â rhai a wahaniaethant oddiwrthynt yn fawr mewn barnau ; ac ni raid i'r Undodiaid laesu eu gafael ar eu hegwyddorion oblegid derbyn o honynt y gwahoddiad. Yn awyrgylch caniadaeth o fawl y gostyngir yn oreu a mwyaf effeithiol bob math ar furiau sectol. Parhaed a chynhydded—brawdgarwch.

* * *

Tebyg ein bod yn ddyledus am y gwahoddiad yn bennaf i'r Henadur Howell. Ymddengys fel pe fod yn mynwes Mr. Howell deimlad gwresog at yr Undodiaid. Arwydd (neu brawf) o hyn, yn ychwanegol at yr hyn ddwedwyd eisioes, yw ei barodrwydd i roi ei wasanaeth i'n eglwysi ar y Sul ac achlysuron ereill ; ac y mae ei ymweliadau â'n eglwysi yn ddeiliyniol iawn. Rhyfedda rhai sut y gall Mr. Howell bregethu i gynnulleidfaoedd Undodaidd, a rhoi boddlonrwydd iddynt ; a sut y gall yr Undodiaid wrando arno yntau. Dyma stori fach flasus iawn a glywais ddydd y gymanfa a deifl ychydig o oleuni ar yr anhawster. Yr oedd Mr. Howell wedi bod yn pregethu, yn un o'r capeli. "Wel, fachan," meddai un o'i gyd-aelodau wrtho, "fuoch yn pregethu gyda'r Undodiaid ddoe." "Do." "Sut y daethoch ymlaen ?" "Wel, fe bregethais iddynt o'r Hen Destament, a throdd popeth allan yn iawn." Call iawn, onite? ond—a olyga Mr. Howell mai i'r "hen oruchwyliaeth" y perthyn yr Undodiaid ?

* * *

Ambeuthyn, hefyd, oedd gwrando ar gyfeiliad meistrolgar Mr. Richard Howells, Aberdar. Y mae Mr. Howells yn adnabyddus fel un o gyfeilwyr galluocaf ein cenedl ; ac ymddengys fel pe fod ei gysylltiad â'n cymanfa yn un parhaol.

* * *

Yn eistedd yn y cor mawr, yn un o'r oedfaon, fe ellid gweled hen wr penwyn, na allai lai na thynnu sylw'r craffus ei lygad. Beth pe dywedwn mai hwn, mewn un ystyr, yw tad ein Cymanfa Gerddorol? Dyna yw'r ffaith. Cyfeirio wnaf at y cerddor fu'n adnabyddus iawn un adeg—Mr. John Jones, Aberayron (Jones bach y cantwr, fel y gelwid ef gynt). Efe fu'n dysgu'r Sol-ffa yn ein eglwysi gyntaf. Da y cofiaf am dano yn ymweled a Chapelygroes tua hanner cân mlynedd yn ol, a'r lluaws yn tyrru ato o bob cyfeirad. Y mae yn awr yn y 92ain flwydd o'i oedran ; ac er's pymtheg mlynedd ymron bod yn ddall. Teg fo ei ddiwedydd.

* * *

Ni ddylwn ddwyn y sylwadau hyn i derfyn heb ddweyd gair o ganmoliaeth i'r plant fu'n adrodd yr emynnau yn oedfa'r bore. Yr oedd yr adroddiadau yn effeithiol iawn. Arferiad yw hwn y dylid ei gadw i fyny.

* * *

Ni ddywedaf air am y canu ymhellach na chofnodi'r ddedfryd gyffredinol—ei fod o ansawdd uchel iawn ; o leiaf, ni chlywais i un ddedfryd wahanol. Ar wahan i'w ansawdd, yr oedd ei effaith (i'm tyb i) yn drydanol i'r eithaf. Wrth wrando o honof arno, medrwn sylweddoli (yn rhannol, fodd bynnag) beth oedd profiad Petr ar fynydd y gweddnewidiad, pan y llefodd allan, "Da yw inni fod yma." Ie, da ydoedd i ni fod yno : dyna, yn ddiamheuol, y profiad cyffredinol.

ARHOLIAD 1920—1921.

Cynhaliwyd yr Arholiad blynyddol dydd Sadwrn, Ebrill 30ain. Yr arholwr oedd Mr. J. R. Thomas, Glyn, Talgarreg. Dyma grynhodeb o adroddiad yr Arholwr :— Bu 132 o dan arholiad, a phasiodd 128. Dosberthir y nifer olaf (128) fel y canlyn. Ciliau, Safon II, 4 ; Safon III, 4 ; cyfanrif 8. Rhydygwin, Safon III, 5. Cribyn, Safon II, 5 ; Safon III, 5 ; cyfanrif 10. Capel-y-groes, Safon I, 7 ; Safon II, 3 ; Safon III, 2. cyfanrif 12. Brondeifi, Safon II, 8 ; Safon III, 3 ; cyfanrif 11. Caeronen, Safon II, 3 ; Safon III, 2, cyfanrif 5. Alltyplaca, Safon I, 3 ; Safon II, 2 ; Safon III. 7 ; cyfanrif 12. Capel y Bryn, Safon I, 4 ; Safon II, 6 ; Safon III, 10 ; cyfanrif 20. Capel y Cwm, Safon II, 3 ; Safon III, 6 ; cyfanrif 9. Pantydefaid, Safon II, 2. Capel y Graig, Safon II, 3 ; Safon III, 1 ; cyfanrif 4. Llwyn, Safon I, 6 ; Safon II, 7 ; cyfanrif 13. Capel y Fadfa, Safon II, 9 ; Safon III, 9 ; cyf. 18.

Dyfarnwyd 36 yn deilwng o safle anrhyddeddus—fel hyn ; Safon I, Capel-y-groes 1 ; Capel y Bryn 1. Safon II, Ciliau 1 ; Brondeifi 2 ; Caeronen 1 ; Capel y Bryn 2 ; Capel y Cwm 1 ; Llwyn 2 ; Capel y Fadfa 1 ; Capel y Graig 2. Safon III : Rhydygwin 3 ; Cribyn 2 ; Capelygroes 2 ; Brondeifi 3 ; Caeronen 1 ; Alltyplaca 3 ; Capel y Bryn 4 ; Capel y Cwm 3 ; Capel y Graig 1.

Dyma resti o enwau yr ymgeiswyr llwyddiannus (gydag anrhydeddus) : Safon I, Getta Thomas (Capel-y-groes) ; Roy Jones (Capel y Bryn). Safon II, Letitia Mary Jones (Ciliau) ; Eiluned Davies, Evan David Davies, (Brondeifi) ; Dinah Davies (Caeronen) ; David Lloyd Evans, Hannah Jones (Capel y Bryn) ; Evan Tom Evans (Capel y Cwm) ; Sally Jones, Daff Jones (Llwyn) ; Mary Jones (Capel y Fadfa) ; Mary Margaretta Jones, Sarah Anne Jones (Capel y Graig). Safon III. Raehel Edith Evans, Daniel Ceiriog Jenkins, John Jenkin Jones (Rhydygwin) ; Sarah Hughes, Martha Herbert (Cribyn) ; Tom Arthur Kent, Mary Anne Thomas (Capel y groes) ; Evan David Jones, Nancy Jones, Jennie Davies (Brondeifi) ; Mary Anne Davies (Caeronen) ; Annie Williams, Dorothy Williams, Sarah Jenkins (Alltyplaca) ; Elizabeth Aerona Pugh, Rachel Winnie Pugh, John Spencer Lloyd, Nancy Thomas (Capel y Bryn) ; Margaret Lloyd, Gwilym D. Williams, Daniel Emrys Evans (Capel y Cwm) ; David John Ithel Davies (Capel y Graig).

Heblaw yr uchod, pasiodd 40 yn y Dosbarth cyntaf, 52 yn yr ail Ddosbarth yn y tair safon, fel y canlyn : Safon I, Dosbarth 1af, 4 ; ail 14. Safon II, Dosbarth 1af, 25 ; ail 17. Safon III, Dosbarth 1af, 11 ; aii, 21. Ni chaniata gofod i roi'r enwau yn y ddau ddosbarth. Yn ei adroddiad sylwa'r arholwr ar yr anhawster i benderfynu pwy yw y goreu. Enwir nifer luosog fel yn haeddu *medal.*

Dyma ddyfyniad o'r Adroddiad : "Yr hyn wyf am gyfleu yw y dylai fod rhagor nag un *medal* i bob safon. Mai rhoddi *medal* i'r un goreu yn golygu fod un yn well (neu lawer yn well) na'r oll o'r lleill. Mae y cynllun presenol o roddi *medal* i'r un goreu yn *absurd.* Dylai *medal* gael ei roddi i'r goreuon ymhob safon yn y gwahanol gapeli (13)." Haedda'r sylwadau sylw arbennig. Awgrymaf a ganlyn fel mater ymdriniaeth ym Mhwyllgor yr Ysgol Sul ym Mhantydefaid : yng ngwyneb yr anhawster y cyfeiria'r arholwr ato, ai doeth rhoddi *medals* o gwbl ?

D. Evans, *Ysg.*

TELYNORION ABERDAR.

Mae'r telynorion wedi bod yn fwy lliosog yng Nghymru un amser nag ydynt heddyw. Daliai'r tri canlynol, yng nghylch y rhai yr wyf am ddweyd gair, gysylltiad mwy neu lai agos a Hen Dy Cwrdd, Aberdar, ac yr wyf yn cofio am y tri.

JOHN WILLIAMS,

y telynor dall, oedd fab i John a Martha Williams, a ganwyd ef Ebrill 16, 1827. Gof cywrain a medrus oedd ei dad, a dyn cyfrifol yn ei ardal. Bu'n Flaenor y Gân yn yr Hen Dy Cwrdd am flynyddau, a dywedir ei fod yn arwain o'r sedd o dan y pwlpud. Ar ddydd ei angladd, cyfrifid fod tua 2,500 o bobl yn bresennol,—mwy na digon i lanw'r capel hanner dwsin o weithiau. Am hynny gorfuwyd cynnal y gwasanaeth yn yr awyr agored, a thraddododd y gweinidog — John Jones—ei genadwri oddiar y Mownt, y tu allan i'r fynwent. Yr oedd ei fam—mam y telynor—yn perch i'r hen weinidog, y Parch. Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi), a bu farw Ebrill 17, 1851.

Awgrymwyd eisoes fod y telynor yn ddall, ond nid yw hyspys i mi a oedd felly o'i enedigaeth, na sut yr aeth yn ddall; ond oherwydd hynny bu raid iddo geisio am ryw foddion cynhaliaeth gwahanol i'r cyffredin. Felly dysgodd chwareu'r delyn, ym mha le a chan bwy nis gwn, ond daeth yn gampwr ar y grefft, fel y prawf y ffaith iddo enill y Delyn a gynhygiwyd yn wobr yn Eisteddfod Abergafenni, 1853, gan y Bonwr, y Cyrnel Kemeys Tynte o Gefn Mabli.

Ar adeg Twymyn yr Aur, pan oedd dynion with y cannoedd yn symud i Awstralia, cafodd Thomas, ei frawd, ei daro gan y dwymyn, a phenderfynodd fynd gyda'i deulu i dreio ei lwc. Yn wyneb hynny teimlodd John, gan ei fod wedi colli ei fam, y gadewid ef yn unig ac amddifad iawn os arosai ar ol, ac mai'r peth goreu fyddai iddo yntau fynd hefyd. Ym mhen rhai blynyddau fe ddaeth Thomas a'i deulu yn ol i'w hen wlad, ond ni chlywais byth am y ffortiwn a ddisgwylid. Beth ddaeth o John nid wyf yn gwybod—pa un a fu efe farw cyn dychweliad Thomas neu na fu. Sicr yw na ddychwelodd byth i Gymru.

THOMAS DAFYDD LLEWELYN.

Defnyddiai'r ffugenw "Llewelyn Alaw" ambell bryd. Mab ydoedd i Dafydd a Martha Llewelyn, Aberdar. Ganwyd ef 1828, bu farw 1879, a daearwyd ei weddillion ym mynwent yr Hen Dy Cwrdd. Ni chafodd fawr, os dim, ysgol yn ei ddyddiau bore, ond cafodd ei eni mewn teulu lle'r oedd yr awydd am wybodaeth yn gryf. Nid oedd ei dad ond gweithiwr cyffredin, ac eto efe a fu yn syndod i lawer pan glywsant ef yn traddodi ei ddarlithiau ar Seryddiaeth yn gyhoeddus. Rhaid fod Thomas hefyd, er ei anfanteision, wedi ymroddi yn dra thrylwyr i gasglu gwybodaeth, cyn iddo ddod yn llenor o'r fath ag ydoedd. Mae yn ddiameu iddo wneud cryn wasanaeth yn ei ddydd i'w gyff a'i genedl. Yn 1853, yn Eisteddfod y Carw Coch, enillodd hanner y wobr am y traethawd ar "Hanes Aberdar." Aeth yr hanner arall i Thomas John Jones (Cynonwyson). Ceir yn y traethodau hyn — amherffeithiau ydynt—lawer y bydd ofer i hanesydd y dyfodol ei geisio yn unrhyw fan arall. Ceir hwy yn argraffedig yn "Gardd Aberdar." Enillodd hefyd y wobr am y "Casgliad Goreu o Alawon Cymraeg Anghyoeddedig" yn Eisteddfod Llangollen, 1858. Ei athraw mewn Cerddoriaeth Delyneg-ol oedd y John Williams a grybwyllwyd eisoes. Bu yntau ei hunan ar ol hynny yn athraw llwyddiannus

i amryw bobl ifeinc. Mae'r craffus, ond odid, wedi sylwi iddo farw yn gymharol ifanc. Yn ei flynyddau diweddaf yr oedd wedi mynd yn feichus o dew, ac fel canlyniad daeth awydd yn naturiol arno i geisio ysgafnhau tipyn ar y baich. Busnes beryglus Gwnaeth ddefnydd o ryw feddyginiaeth — *Barting*, neu rywbeth arall — a llwyddodd i gael gwared o'r cig gwyn, ac i leihau ei bwysau, ond ni ddygodd ddydd iach byth wedi'n.

Dywed M. O. Jones iddo fod yn delynor i deulu Aberpegwm ac i deulu Arglwydd Aberdar.

THOMAS LEWIS (1829—1902).

Mab oedd efe i Lewis Lewis, Tydraw, ac enw ei fam oedd Joan. Yr oedd yn wyr hefyd i Jenkin Lewis, diacon un amser yn yr Hen Dy Cwidd. Collodd Thomas Lewis ei olygon drwy anlwc hynod a ddigwyddodd iddo yn Ffair Aberdar, pan oedd tua deunaw oed. Pan yn saethu wrth y "Stondin Gnau," aeth tamaid o'r *copper-cap* i'w lygad, ac anafodd ef, ac ym mhen amser, fel canlyniad, fe gollodd y llall drwy gydymdeimlad. Pe digwyddasai'r anlwc heddyw, fe achubid y llygad iach drwy symud y llygad clwyfedig i ffwidd yn gyfangwbl.

Wedi colli ei olygon, bu raid iddo fynd a dysgu crefft, ac aeth at John Williams, a dysgodd chwareu'r delyn. Nis gwn pa hyd y bu yno, ond daeth yn chwareuwr medrus, fel yr oedd yn llwyddiannus i gipio'r gwobrau yn yr Eisteddfodau lleol yn fynych. Dewiswyd ef hefyd yn delynor teulu Cefn Mabli, a daliodd y "Badge" hyd derfyn ei oes. Yr oedd yn delynor Aberpegwm hefyd. Cofiaf ef yn dweyd fod bwleden a saethwyd at Aberpegwm gan fyddin Cromwell pan yn paslo,tiwy Gwmnedd wedi bod yn ei law. Perthynai teulu Aberpegwm, fel y rhan fwyaf o'r bobl fawr ar y pryd, i "Blaid y Brenin." Bu yn delynor hefyd i deulu Arglwydd Aberdar. Er anrhydedd i *My Lord* y cyfansoddodd yr "Aberdare March."

Derbyniai ei bapur dyddiol, ac yr oedd yn bur hyddysg yn ei gynnwys. Gwyddai am y personau a'r amgylchiadau a gaent y prif sylw yn ei golofnau. Yn naturiol, fel y gellid disgwyl, yr oedd yn wleidyddwr goleuedig, a chanddo ei feddwl ei hun ar brif bynciau'r dydd.

Yr oedd yn aelod ffyddlon a selog yn yr Hen Dy Cwrdd, ac yn athraw y cydnabyddid ei werth yn yr Ysgol Sul. Gwir ei fod yn ddall ac na allai ddarllen, ond medrai gywiro darlleniad aelodau'r dosparth. Yr oedd ganddo amcan da am ystyr yr hyn a ddarllenid, a gallu da i egluro anhawsderau. Yr oedd ganddo gof da. Synnais unwaith ei glywed yn adrodd—nid Salm 119, mae'n wir, ond un o'r Salmau hwyaf er hynny. Yr oedd ganddo ugeiniau lawer, os nad cannoedd, o emynau ar ei gof. Yr oedd y rhai hyn yn gweini cysur iddo lawer pryd yn ddiameu o dan lawer o wahanol amgylchiadau. Chwi, bobl ieuainc, llwythwch eich cof a thrysorau a fyddant yn ddiddanwch a chysur ar adegau pan fydd eisiau tost.

MARWGOFION.

MAWRTH 20, Eleanor Thomas, Tynewydd, Bwlchyfadfa—gweddw y diweddar Evan Thomas, Fadfa—Llandyssul, yn 71 oed. Er y gwyddai ei chymydogion nad oedd ei hiechyd yr hyn y carent iddo fod er's rhai misoedd, ac yr ofnent nad oedd gwella i fod iddi, eto tarawyd hwy a syndod pan glywsant ei bod wedi ffarwelio ar y dydd

uchod, ac ymddangosai ei marwolaeth fel un pur sydyn. Ail wraig oedd hi i'r Evan Thomas uchod, ac ni bu iddi blant, ond gwnaeth ei rhan yn dda er dwyn i fyny bedwar o'i blant ef, ac y mae y pedwar heddyw yn alarus o'i cholli. Yr oedd ei cholli hi, iddynt hwy, fel colli mam, yn enwedig i'r un ag oedd wedi aros gyda hi ar yr aelwyd hyd y diwedd. Bu'n ffyddlon iawn yn Mwlchyfadfa oddiar ei dyfodiad i'r ardal, ac yr oedd yn hynod garedig gyda'i bwyd. 'Doedd nemawr i Sul yn pasio nad oedd yna rywrai—plant a phobl mewn oed—yn bwyta yn Tynewydd—ar adegau byddai yno'n agos lond y ty. Yn y cyfeiriad hwn fe welir ei heisieu'n fawr. Yr Iau canlynol daeth nifer luosog o gyfeillion a chydnabod ynghyd i "dalu y gymwynas olaf" iddi. Claddwyd ym mynwent Bwlchyfadfa, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. "Arwain fi at graig a fyddo uwch na mi."

MAWRTH 21, yn 14 oed, bu farw Rachel Myfanwy, annwyl ferch John a Sarah Ellen Evans, Talybont, Pennant, wyres i'r diweddar Jenkin Jenkins, Cwmmaen (gynt), ar ol cystudd maith. Heblaw y rhieni, gadawodd amryw chwiorydd a pherthynasau agos ereill mewn galar ar ei hol. Dygwyd ei gweddillion i gladdfa Capelygroes, dydd Sadwrn canlynol. Gwasanaethwyd yn y Capel gan y Gweinidog.

EBRILL 12, ar ol cystudd byr iawn, yn 82 oed, bu farw Margaret Evans, gweddw y diweddar Daniel Evans, Ordolau, Llanybyther. Claddwyd y Gwener canlynol ym medd ei hanwyl briod, ym mynwent Aberduar. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, gyda chynorthwy y Parch. L. Williams. Mae'r plant fel hyn wedi colli eu rhieni yn gyflym iawn ar ol eu gilydd, ac yn gorfod teimlo'r ymddifadrwydd yn fawr. Yr oedd Mrs. Evans yn wraig ffyddlon, yn fam dyner a darbodus, yn gymydoges gymwynasgar, ac yn aelod difrycheulyd o'r Eglwys Gristionogol yn Aberduar. Cyflwynwn y plant i nodded y Tad Goreu.

EBRILL 13, yn 83 mlwydd oed, David Evans, Llwynbedw, ger Alltyblacca. Yr oedd yr ymadawedig yn frawd i'r diweddar Barch. John Evans, Gellionen, ac ŵyr iddo yw y Parch. J. Dare Davies, gweinidog Undodaidd yn yr Iwerddon. Saer ydoedd wrth ei alwedigaeth, a chan ei fod yn ddyn o fedr ac uchelgais, datblygodd i fod yn adeiladydd. Adeiladodd amryw o ysgoldai yn y Sir a thuallan iddi. Efe hefyd godod Capelybryn, Cwrtnewydd. Cafodd ei fendithio â chorph eithriadol gryf, a chan ei fod yn weithiwr caled a deheuig, medrai wneud mwy o waith nag eraill yn gyffredin. Hefyd yr oedd yn weithiwr gonest. Nid oedd a'i fryd ar arbed na llafur na thraul, eithr ar fod yn ddidwyll yn ei waith. Erys yr adeiladau a gododd yn gadarn heddyw, a thystiolaethant am ei onestrwydd. Yr oedd wedi ymneillduo o'i alwedigaeth er's amryw flynyddau, a thrwy ofal ei blant am dano treuliodd y rhan olaf o'i fywyd mewn tawelwch a dedwyddwch. Gadawodd un mab, sef John Evans, yr hwn sydd yn adnabyddus i gylch helaeth ar gyfrif ei waith fel plastrwr, yn nghyd a thair merch, un chwaer, ac ŵyrion, mewn galar ar ei ol. Claddwyd yn Alltyblacca, yr angladd yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. L. Williams a J. Davies.

EBRILL 23, yn 79 mlwydd oed, John Davies, Maesyrhedydd, plwyf Llanfihangel-ar-Arth. Bu yr ymadawedig yn wr diwyd a darbodus ar hyd ei holl fywyd, o rodiad cywir ac iddo air da gan ei gydnabod. Bu yn aelod a diacon am flynyddoedd yn y Graig, Llandyssul, a thra y parhaodd ei nerth mynychai yr addoliad yn rheolaidd iawn, a chymerai arno ei hun yn ewyllysgar ran o'i gyfrifoldeb fel aelod crefyddol. Y dydd Mercher dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol o hono ym mynwent Capelybryn, Cwrtnewydd. Gwasanaethwyd a phregethwyd yn y ty gan y Parch. T. A. Thomas, yn y capel gan y Parch. L. Williams, ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies. Gadawodd mewn

galar un chwaer, neiaint a nithoedd, un o'r rhai gartrefai gyda'r ymadawedig ac a weinodd yn ofalus arno.

Mai 11, yn 52 mlwydd oed, yn nhy ei chwaer yn Nhirdail, David Davies, mab henaf Mr. a Mrs. Davies, Cilgwynbach, Llandyssul, a brawd i'r Parch. J. Park Davies, B.A., B.D. Bu yr ymadawedig am flynyddoedd yng ngwasanaeth y diweddar Mr. John Jones, Camnantfach fel lledrwr, ac yna wedi hynny yng Nghastellnedd. Yn y ddau le yr oedd yn fawr ei barch. Pan yn y lle blaenaf mynychai Llwynrhydowen yn gyson iawn. Y dydd Sadwrn dilynol cludwyd ei weddillion marwol i'w gosod i orffwys ym mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd yn Nhirdail gan y Parchn. Arthur Thomas a Bryniog Thomas (A.), pregethwyd ym Mhantdefaid gan y blaenaf a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MANION AC HANESION.

Llwynrhydowen.—Bydd dydd Mercher, Mawrth 2, yn ddiwrnod i'w hir gofio yn y lle hwn ar gyfrif y wledd odidog o dê gafwyd yn y prynhawn, a'r cyfarfod hwylus gafwyd yn yr hwyr. Rhoddwyd y tê gan Mrs. James, Rhydcoedfoel, a Mr. Thomas, Spring Gardens, Llandyssul, a gofalodd y ddau nad oedd y wledd ddim yn ol i wleddoedd y gorffenol. Gwledd ragorol ydoedd. Yn yr hwyr cafwyd Cyfarfod Cystadleuol, cyfyngedig, y rhan fwyaf o hono, i aelodau eglwys ac Ysgol Sul y lle. Llywyddwyd gan Mr. Ben James, Ysgolfeistr, Pontshan. Y beirniad oeddynt Mr. T. Thomas, Green Grove, a Mr. David Richards, Red Lion, y ddau o Bwlchyfadfa. Yn ystod yr hwyr rhanwyd llyfrau a gwobrwyon ereill i'r plant am eu ffyddlondeb gyda'r Ysgol Sul.

"Cledlyn."—Olygydd annwyl,—Ymddengys fod cryn amheuaeth parthed ystyr y gair "Cledlyn." Awgrymir "caled a llyn," a "chledd a llyn" fel gwreiddiau iddo. Nid wyf i ieithydd, ond rywsut tybiaf mai nid dyna ystyr y gair. Rhaid cydio Cled a'r geiriau Clwyd, Clyde, Clydach, &c. Ni bum i yn agos i Clyde erioed, ond gwn fod "Clwyd" yn llifo drwy ddyffryn coediog, ac y mae Cledlyn hithau'n llifo drwy ddyffryn cysgodol, ond ni thybiaf mai ym Mlaencathal y tardd oherwydd Cathal a dardd yno. Beth bynnag am hyn, medrid cysylltu cled a'r gair clith (cryf) hwyrach, ond i mi yr esboniad symlaf yw'r cywiraf ran amlaf. Hwyrach fod deddfau iaith yn cael eu treisio, ond eto, onid Cledlyn yw'r Clydlyn, y glyn clyd, y glyn cysgodol neu gynnes (a chofier gyda llaw, nid yw dyffryn ond dwfr-bynt, neu lwybr y dwfr), a daw Cledlyn i olygu felly y dyffryn cysgodol a'r dwfr a lif trwy ddyffryn cysgodol. A wypo ragor traethed ei lên.—X.Y.Z.

Y Graig a Gellionen.—Nos Sul, Mawrth 20, caed y fraint o wrando y Parch. J. Tywi Jones, Glais, yn pregethu yn y Graig, a daeth cynulliad da ynghyd. Ac aeth Gweinidog y lle yn ei le yntau. Da genym weled arwyddion fod culni enwadol a sectyddiaeth yn magu tipyn o glefyd, a hwnw i farwolaeth. Fe gyst oesau i gael dynion allan o'u hen lwybrau anghristnogol.——Eto, yn y Graig, nawn a hwyr y Groglith, cynhaliwyd dwy *Rehearsal* er ymarferyd a rhaglen y Gymanfa a gymerodd le yng Nghastellnedd, Mawrth y Pasc. Da yw deall i Mr. Evans gael ei foddloni yng nghanu y Graig ar yr emynau a'r anthemau. Trodd y gymanfa fawr hefyd allan yn foddhaol iawn. ——Hefyd, nos Sul, Ebrill 10, yn y Graig, cawsom ninau Gymanfa fach i ni ein hunain, fel eco o un Castellnedd. Aeth pobpeth yn ei flaen yn ddymunol. Siaradodd Mri. John Hopkin a Henry Morgan. Cawd dau adroddiad gan Fegan Cope. Arweiniodd Mr. H. H. Morgan; cyfeiliwyd gan Mr. Isaac E. Hopkin; llywyddodd y Parch. D. G. Rees.

Y MILWR DI-ENW (*The Unknown Soldier*).

'Rwy'n cofio Gwèn a Deio'r go'
Heb lawer o gyfalaf,
Mewn bwthyn gwyngalch yn y fro
Yn siglo cryd eu cyntaf.
Gwresogai cariad mam a thad
With wylio'r 'tlws' yn gwenu ;
Nid oedd tufewn i blasau'r wlad
Un peil fel hwn yn denu.

'Rwy'n cofio swn yr eingion fawr
Yn crwydro gyda'r awel,
Gan roddi croesaw llon i'r wawr
Ar fryniau'r hendud dawel.
Nid byw ar gardod arglwydd tir
Oedd Deio'r go' a Gwenni ;
Ar fara gonest dyddiau hir
Dan gur y magwyd Benni.

'Rwyn cofio Benni'n fachgen iach
Ar fin ei ddwy-ar-hugain,
Yn camu trothwy'r bwthyn bach
I'r gâd dros ryddid Frydain.
Ond bedd y milwr fu ei ran
Mewn allfro hwnt i'r tonnau ;
Ac nid oes 'croes' i nodi'r fan
Lle'r huna wedi'r brwydrau.

'Rwy'n cofio Gwen a Deio'r go'
Dan wybren laith, gymylog,
Yn darllen ym mhapurau'r fro
Am 'Gladdu y Mynachlog.'
Tra wylai'r fam o dro i dro
'Roedd tân y tad yn deffro ;
Pwy wyr nad Ben, fab Deio'r go'
A roed i orphwys yno.

Ansdell. D. CELLAN EVANS

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYNHELIR

. Cyfarfodydd Blynyddol .

Y GYMDEITHAS UCHOD

Ym Mhantdefaid

MERCHER ac IAU, MEHEFIN 22 a 23, 1921.

Trefn y Cyfarfodydd :-

Nos Fercher am 6.30.
Dydd Iau am 9.30—Pwyllgor y Gymdeithas.
" " 10 30—Gwasanaeth.
" " 2—Gwasanaeth.
" " 6—Gwasanaeth.

Disgwylir i bregethu ac i gymeryd rhan yn y Cyfarfodydd y Dr. TUDOR JONES, M.A., ac E. A. WILSON, Ysw., Bryste, ar ran y "*Laymen's League.*" y Parchedigion D. G. REES, Gellionen, E. R. DENNIS, Aberdar, a'n holl weinidogion yn Sir Aberteifi.

Estyna yr eglwys ym Mhantydefaid groesaw cynnes i bawb fod yn bresenol. Gofaled y cantorion ddyfod a Rhaglen y Gymanfa Gerdorol ganddynt.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

BOOKS ON LIBERAL RELIGION.

— Just Published. —

A Unitarian's Thought of God. By Christopher J. Street, M.A., LL.B. Crown 8vo, 94 pp, 2s. 6d. net, paper 1s. 6d. net, postage 3d. "This little book is the result of a firm conviction that no solution is to be found for the deepest problems of life except in the thought of God and the realisation of his presence and operation in the life of man."—*Preface.*

Realities and Reconstruction. By R. Travers Herford. Crown 8vo, 152 pp., 3s. 6d. net, paper 2s 6d. net, postage 3d. "It is salutary to read these quiet, sensible chapters which hold up a high ideal, but at the same time remind us of some obstinate facts."—*Inquirer.*

The Parables of Jesus applied to Modern Life. By J. Cyril Flower. With a Foreword by Dr. L. P. Jacks. Crown 8vo., 116 pp., paper 2s. net. Mr. Flower writes as one who believes that "the time is at hand when we shall cease to chatter about the person of Christ, and when the world will catch a glimpse of the real man of Galilee, and give ear to a teaching which, like the seed growing in secret, shall germinate in the hearts of men and revolutionize our social life, our industrial order and our religion."

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Postage is saved by ordering through a Bookseller.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

S. B. Murray F. Hyde E. W. Woolley

Subscribed Capital	**£38,116,050**
Paid-up Capital	**10,859,800**
Reserve Fund	**10,859,800**
Deposits *(Dec. 31st, 1920.)* ..	**371,841,968**

Llandyssul Office: 9, Lincoln Street

Manager: T. M. JONES

Over 1500 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2